

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MB/MD/1761/15

David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Annwyl David,

17 Gorffennaf 2015

Mae'n bleser gen i eich hysbysu bod Dr Richard Lewis we cael ei benodi yn Arweinydd Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol yng Nghymru, yn dilyn cystadleuaeth agored. Bydd Dr Lewis yn rhoi arweiniad clinigol i helpu i sicrhau bod gofal iechyd yn cael ei gynllunio a'i ddarparu'n lleol.

Ar hyn o bryd, Dr Lewis yw Ysgrifennydd Cymdeithas Feddygol Prydain yng Nghymru ac mae hefyd yn Feddyg Teulu yng Nghymoedd y De. Fel Meddyg Teulu sydd â dros 25 mlynedd o brofiad ac sydd wedi gweithio mewn rôl arweiniol gyda Chymdeithas Feddygol Prydain am dros 10 mlynedd, mae'n meddu ar wybodaeth, profiad a dealltwriaeth fanwl o gryfderau a heriau presennol y system gofal sylfaenol yn y GIG yng Nghymru.

Byddaf yn cyhoeddi'r penodiad hwn heddiw yn lansiad cynllun y gweithlu ar gyfer gofal sylfaenol. Mae cynllun y gweithlu, a fydd yn destun chwe-wythnos o ymgysylltiad, wedi cael ei ddatblygu o ganlyniad i gam gweithredu a nodwyd yn y cynllun cyffredinol ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru. Mae'n rhoi camau gweithredu ar waith ar gyfer y tymor uniongyrchol a'r tymor-canolig i adeiladu sylfeini cryfach ar gyfer cynllunio'r gweithlu sydd ei angen arnom ar gyfer y dyfodol, er mwyn helpu i ddatblygu clystyrau yn y dyfodol ac ar gyfer buddsoddi yn y gweithlu gofal sylfaenol ehangach drwy addysg a hyfforddiant. Mae hefyd yn cynnwys cymryd camau i gefnogi adrannau allweddol o'r gweithlu presennol, mewn ymateb i'r pwysau amlwg sy'n parhau i effeithio ar rannau o Gymru wrth i fodolau gofal newydd gael eu datblygu.

Mae'r llythyr hwn yn cael ei gopïo i lefarwyr y gwrthbleidiau.

*In gywir,
Mark.*

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@cymru.gsi.gov.uk
Printed on 100% recycled paper